1.22

# DEIO BACH

NEU

## Hiraeth Mam ar ol ei Mab aeth i'r America.

Tôn—" *Diniweidrwydd.*"

MEGAIS fachgen bach ac anwyl,
Ar fy mron mewn trafferth mawr:
Deio, ti yw'r bachgen hwnw,
Nad wn p'le yr wyt yn awr :
Maith yw'r amser er y'th welais,
'Machgen anwyl, wyt ti'n iach ?
Os na elli ddyfod drosodd,
Anfon lythyr, Deio bach.

Pan y gwenit yn fy ngwyneb,
Pan chwareuit gylch fy nhraed,
Codai hiraeth yn fy nghalon,
Am dy anwyl, anwyl dad ;
Do, mi'th godais dan fy nwyfron,
Y mae hiraeth mawr a chlwy',
Ond mae'th oeraidd ddiofalwch,
Heddyw'n peri hiraeth mwy.

Gauaf oer i'm fu'r diweddaf,
Anwyd lawer ddygais i,
Peidiais cwyno rhag cwtogi
Gronyn ar dy lawnder di ;
Nid oes rhaid i wraig y dafarn,
Nac i'th flys dy hun gael cam,
Os yw'n anhawdd spario dimai,
Gad yn anghof gŵyn dy fam.

Caled yw fy nhamaid bara,
  Ië, caled iawn a phrin,
Tra mae 'mhlentyn, mi obeithiaf,
  Gyd â'i fara o wenith gwyn;
Os wyt ti, fy mhlentyn anwyl,
  Wrth dy fwrdd, heb nych na nam
Os nad yw yn ormod gofyn,
  Cofia damaid gwael dy fam.

Os nad yw yn ormod hyfdra
  Ar afradlon lencgyn hael,
I adgofio pwy a'i magodd,
  A bod ganddo fam i'w chael,
F'allai y goddefi imi,
  Deio bach, heb dybied cam,
I ryw fenyw a adwaenost,
  Dd'weyd fod genyt tithau fam.

Os na elli ddyfod drosodd,
  Os na elli'm helpu ddim,
Beiddiaf ofyn un peth iti,
  F'allai rhoddi hwnw im',
Careg fedd nid wyf yn ddisgwyl,
  Gormod im' gan hiraeth iach,
Dyro ddeigryn wrth fy nghofio,
  Dim ond deigryn, Deio bach.

X2051 9762X

# YR ENETH GA'DD EI GWRTHOD.

---

Ton—" *Bugeilio'r Gwenith Gwyn.*"

---

AR lan 'rhen afon Ddyfrdwy ddofn
  Eisteddai glân forwynig,
Gan ddystaw sisial wrthi ei hun –
  " Gadawyd fi yn unig,
Heb gâr na chyfaill 'fewn y byd,
  Na chartref chwaith fyn'd iddo,
Drws tŷ fy nhad sydd wedi ei gloi,
  'Rwy'n wrthodedig yno.

Mae bys gwaradwydd ar fy ol
  Yn nodi fy ngwendidau,
A llanw 'mywyd wedi ei droi
  A'i gladdu dan y tonau;
Ar allor chwant aberthwyd fi
  Do, collais fy anrhydedd,
A dyna'r achos pa'm yr wyf
  Fi heno'n wael fy agwedd.

Ti frithyll bach sy'n chwareu'n llon
  Yn nyfroedd glân yr afon,
Mae genyt ti gyfeillion fyrdd,
  A noddfa rhag gelynion;
Cei fyw a marw o dan y dw'r,
  Heb undyn dy adnabod,
O! na chawn inau fel tydi—
  Gael marw ac yna darfod!

Ond 'hedeg mae fy meddwl prudd
  I fyd sydd eto i ddyfod,
A chofia dithau, fradwr tost,
  Rhaid iti fy nghyfarfod ;
Ond meddwl am dy eiriau di,
  A byw, sydd imi'n ormod ;
O ! afon ddofn, derbynia fi,
  Caf angau yn dy waelod ! "

A boreu dranoeth cafwyd hi
  Yn nyfroedd oer yr afon,
A darn o bapyr yn ei llaw,
  Ac arno 'r ymadroddion—
" Gwnewch imi fedd mewn unig fan,
  Na chodwch faen na chofnod,
I nodi'r fan lle gorwedd llwch
  Yr Eneth gadd ei Gwrthod."



J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.